WG35.5.25

# MARWNAD

*Er coffadwriaeth am y diweddar Barch.* LEWIS DAVIES, *Llanwrtyd, yr hwn a ymadawodd a'r byd trwy angau, Medi yr 8fed,* 1860, *yn* 55 *o flynyddoedd o'i oed.*

Gan Roger Jones, Llanwrtyd, (Brawd arall Isaac o Dreflys).

---

O! cyfod fy awen dadebra,
  A chân ar dy eithaf yn awr,
Y gwrthddrych sydd genyf i'w gofio,
  Wnaeth syrthio, 'roedd ef yn ŵr mawr,
A thywysog galluog yn Israel,
  O'n gafel ehedodd yn rhydd,
Ei haul ef a gwbl fachludodd,
  Tra'r ydoedd hi etto yn ddydd.

Cyfiawnder yw gwneud coffadwriaeth,
  I'r cyfiawn a'r perffaith pob pryd,
Mae hwnw yn wir fendigedig,
  Ei debyg nid oes yn y byd ;
Annogaeth gref yw ei gofnodi,
  I'w iawn efelychu bob dydd,
Mae'n ddedwydd mewn bywyd ac angau,
  A dedwydd mewn brawdle a fydd.

I ddyn fe osodwyd i farw,
  Oes hwnw â heibio o hyd,
Heb aros un awr nac un mynud,
  Nes rhaid iddo symud o'r byd ;
Gadawodd rhyw amryw o frodyr,
  Eu llafur mewn gogledd a de,
A Davies, Llanwrtyd, wnaeth symud,
  Nid edwyn mwy hefyd 'mo'i le.

Pan bai wrth yr allor deuluedd,
  Ei agwedd oedd ryfedd pryd hyn,
Ei sobrwydd a synau bob person,
  Ca'dd ddigon yn aberth y bryn ;
Dyn hynod oedd mewn cyfeillachau,
  A i mewn i deimladau pob dyn,
Adwaenau bob rhai mewn byr amser,
  O'r llawer a hwynt gwnai ymdrin.

X205308022

Rhyw ddynion talentog gyfododd,
  Feddianodd alluoedd mawr iawn,
Fel fe fu wrth ei galwedigaeth,
  Ddaeth i'r weinidogaith yn llawn ;
Ychydig flynyddoedd sydd etto,
  Er pan rhodd ef heibio waith saer,
A dechreu gwir wahodd pechadur,
  At geidwad yn brysur a thaer.

Rai gweithiau fe safai ar Sina,
  Nes byddai'r holl dyrfa mewn braw,
Rhag ofn y ddedrud gondemniol,
  Y boreu rhyfeddol a ddaw ;
Ac weithiau fe wnai efengylu,
  Fod Iesu yn derbyn mor fwyn,
Nid oes ganddo galon i wrthod,
  Pechadur wna ddyfod a'i gwyn.

Un oedd a bregethodd yn galed,
  A theithio mewn lludded bu ef,
Ai weithiau yn bell oddi cartref,
  Bryd arall pregethau yn nhref ;
Dros fryniau Brycheiniog fe deithiodd,
  Yn enwog defnyddiodd ei ddydd,
A'r amcan o hyd argyhoeddi,
  A throi at yr Iesu trwy ffydd.

Dechreuau y Sabboth yn foreu,
  I gymmell pob graddau gael byw,
A thrwy y Sabbothau erfyniau,
  Cymmoder eneidiau a Duw ;
Fe deithiau draw dros y mynyddau,
  Yn daer fe bregethau air Duw,
I swydd Aberteifi 'r ai weithiau,
  Pan bai ar ei deithiau tra'n fyw.

Fe wnai ef un tro i bregethu
  Yn swydd Aberteifi mae'n wir,
Ryw bregeth bregethau dro arall,
  O hyn rhoi ar ddeall cyn hir ;
Fe gofiau ef hyny yn eithaf,
  Ond teimlau ryw wasgfa mor ddwys
Am adrodd hen wir unwaith etto,
  Am byth cyn ei briddo tan gwys.

A dyna'r tro ola'n Tregaron,
  I ddynion i wrando 'i lais ef,
A dyna'r tro ola i gyfarfod,
  Nes myn'd at i briod i'r Nef ;

A hyny gyhoeddau trwy'r bregeth,
  Yn ymyl myn'd ymaith o'r byd,
Fod Duw i gyfarfod a dynion,
  A digon yn Nghrist rhag y llyd.

Ei eiriau a fyddau'n gyfeiriol,
  Effeithiol rhyfeddol a dwys,
Pan bai gyda gwaith ei hoff geidwad,
  Ei fwriad oedd bod gyda phwys ;
Rhyw fawredd yw waith sydd yn perthyn,
  Ymdrechau roi dychryn mewn dyn,
Rhag cydio yn hwn yn esgeulus,
  Fe fyddai'n ofalus ei hun.

Nid boreu iawn oedd pan dechreuau,
  I esgin pwlpydau dros Dduw,
Ond etto yn nghanol ei ddyddiau,
  Fe gafodd fyn'd adref i fyw ;
Pur hawdd fuasai meddwl y cawsau,
  I ddyweud am rinweddau yr iawn,
A'r drefn i gael Iachawdwriaeth,
  I fyw amryw hirfaith brydnhawn.

Ond Duw o'i ddoethineb anfeidrol,
  Wna'r cwbl yn hollol o dda,
Rhy ddoeth i gam wneud yw Duw'r Nefoedd,
  Trwy'r oll o'i weithredoedd a wna ;
Er nad allwn ddarllen am unwaith,
  'Nawr lyfr rhagluniaeth yn glir,
Pan caiff rhai defnyddiol fyn'd adre',
  Fu fel goleuadau'n ein tir.

Rhyw oerion newyddion am Davies,
  Fel llawer mae'n ddilys fu'n fyw,
Gyrhaeddodd môr dreiddiol i'm calon,
  Nes cedwir hi'n gyson yn friw ;
Nid oer oedd un newydd am dano,
  Fel hwn sef ei briddo'n y bedd,
Ond ni chawn ni mwyach ei glywed,
  Na gweled yn unman ei wedd.

O Nazareth, Gozen, Bethezda,
  Bu yma rai blwyddi'n eich plith,
Ond dyna wna dori ein calon,
  Na chlyw'n yr un ffyddlon mwy byth ;
Y tafod tra ffraeth a wnaeth dewi,
  Neb byw clyw'n pregethu un pryd,
Os disgwyl am dano trwy'n dyddiau,
  Bydd tan oerlaw angau yn fud.

'R addoldai y bu yn areithio,
  I'w gofio wnaed wisgo yn ddu,
Am na bydd i'w glywed byth yno,
  'N areithio mwy fel ac y bu ;
Mewn lleoedd y bu yn pregethu,
  Bu colli mawr ddagrau o ddwr,
Hyd etto fe deimlir y galar,
  Waith marw mor gynar fath wr.

Rhyw aml i ffrynd wrth ei gofio,
  Gan nesed gwnai deimlo y clwm,
Ei galon o hyd y sydd ynddo,
  Yn para hyd etto mor drwm ;
Mewn arch o fewn mynwent Bethezda,
  Gorphwysa ei lwch yn y bedd,
Nes delo y dydd caiff gyfodi,
  Ar ddelw yr Iesu mewn hedd.

Os medraf mi ddywedaf o'm gwirfodd,
  I'r un o flynyddoedd oed Crist,
Pan treiddiodd y newydd galarus,
  I farw'm brawd Davies i'm clust ;
Un mil ac wyth cant a thri ugain,
  'Does neb ddwed yn amgen rwy'n siwr,
Pan aethau ein brawd heb niweidiau,
  I lawr i oer donau y dwr.

'Rwyf weithiau yn mron yn ymddigio,
  Wrth angau waith iddo roi saeth,
A'i daro nes cwympo i'r beddrod,
  Môr drwm oedd y ddyrnod a ddaeth ;
Mis Medi yr wythfed diwrnod,
  Fe aeth o bob trallod i dref,
I ddechrau cyd-ganu a'r teulu,
  Sydd fry wedi cannu'n y Nef.

Rhyw bymtheg a deugain a gafodd,
  Mae'n wir o flynyddoedd i fyw,
Ac er mai tra byr eu rhifedi,
  Mae etto'n llefaru pwy glyw ;
Dymynwn wel'd nawr wrth derfynu,
  Mae'r hwn wna lywyddu sydd ben,
A llefain yn mhob fath o drallod,
  O hyd am ei nabod, Amen.

Argraffydd gan D. Williams, Aberhonddu.—1871.